



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Rhan 6 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011: Rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg

Dyfarniad ac adroddiad Comisiynydd y Gymraeg ar ymchwiliad i gais o dan
adran 111 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

Cefndir

Prif nod Comisiynydd y Gymraeg, sefydliad annibynnol a grëwyd yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, yw hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg. Gwneir hyn trwy ddwyn sylw i'r ffaith bod statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru, trwy osod safonau ar sefydliadau, ac adolygu ac ymchwilio cydymffurfiaeth â'r Mesur. Bydd hyn, yn ei dro, yn arwain at sefydlu hawliau i siaradwyr Cymraeg.

Bydd dwy egwyddor yn sail i'r gwaith:

- Ni ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru
- Dylai personau yng Nghymru allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny

Manylion cyswllt:

- Ffôn: 0845 6033 221
- E-bost: post@comisiynyddygybraeg.org
- Gwefan: comisiynyddygybraeg.org

Comisiynydd y Gymraeg
Siambrau'r Farchnad
5–7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd
CF10 1AT

Cynnwys

1.	Gwneud cais i'r Comisiynydd	1
2.	Penderfynu ai i ymchwilio ai peidio	1
3.	Yr ymchwiliad	1
4.	Canfyddiadau'r ymchwiliad	2
5.	Cwblhau'r ymchwiliad	4
6.	Cyngor	5
7.	Ymholiadau	5

Rhagair

Mae Rhan 6 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ('y Mesur') yn sefydlu'r egwyddor bod gan unigolyn ryddid i ymgymryd â chyfathrebiad Cymraeg gydag unigolyn arall yng Nghymru. Mae'r rhagair hwn yn grynodeb o'r prif hawliau a dyletswyddau o dan Ran 6 y Mesur er mwyn rhoi cyd-destun cyffredinol yn unig. Nid yw'n ddatganiad cyflawn o'r gyfraith nac yn cynnwys pob agwedd o fanylder a chamau'r Rhan honno.

Gwneud cais i'r Comisiynydd

O dan adran 111 y Mesur:

'Caiff unigolyn (P) wneud cais i'r Comisiynydd yn gofyn i'r Comisiynydd ymchwilio i a yw person (D) wedi ymyrryd â rhyddid P i ymgymryd â chyfathrebiad Cymraeg ag unigolyn arall (R) ("yr ymyrraeth honedig").'

Penderfynu ai i ymchwilio ai peidio

Mater i'r Comisiynydd yw penderfynu ai i ymchwilio i achos honedig o ymyrraeth ai peidio. Wrth benderfynu rhaid i'r Comisiynydd gymryd i ystyriaeth ym mha gyd-destun yr honnir bod yr ymyrraeth wedi digwydd. Caiff y Comisiynydd ofyn i P, D, neu i unrhyw berson arall, am wybodaeth neu holi ei farn ynghylch yr ymyrraeth honedig. Os yw'r Comisiynydd yn penderfynu gwneud hynny, rhaid darparu i P a D y wybodaeth berthnasol am ymchwiliadau.

Ymchwiliadau

Cynhelir ymchwiliad i achos honedig o ymyrraeth o dan adrannau 115-117 y Mesur:

'115. – (2) Caiff y Comisiynydd ofyn i P, D, neu i unrhyw berson arall, am wybodaeth neu holi ei farn ynghylch yr ymyrraeth honedig.'

Wrth gynnal ymchwiliad, rhaid i'r Comisiynydd rhoi cyfle rhesymol i D i ymateb i'r honiadau a wnaed gan P.

Terfynu ymchwiliadau

Yn unol ag adran 116 y Mesur caiff y Comisiynydd derfynu ymchwiliad ar unrhyw adeg.

Cwblhau ymchwiliadau

Os yw'r Comisiynydd yn penderfynu ymchwilio i gais, ac nid i derfynu'r ymchwiliad hwnnw, rhaid i'r Comisiynydd ddyfarnu a yw D wedi ymyrryd â rhyddid P i ymgymryd â'r cyfathrebiad Cymraeg ai peidio. Os yw'r Comisiynydd yn dyfarnu bod D wedi ymyrryd â rhyddid P i ymgymryd â'r cyfathrebiad, rhaid i'r Comisiynydd hefyd roi ei barn ar yr ymyrraeth (gan gynnwys ei barn ynghylch cyfiawnhad yr ymyrraeth).

Rhaid i'r Comisiynydd hysbysu D o'r dyfarniad y mae'n bwriadu ei gwneud a rhoi cyfle rhesymol i D ymateb i'r dyfarniad hwnnw, cyn gwneud y dyfarniad.

Rhaid i'r Comisiynydd hysbysu P a D o'r dyfarniad ac, os dyfarnir bod ymyrraeth wedi digwydd, ei barn ar yr ymyrraeth.

Caiff y Comisiynydd roi i P, D, neu i unrhyw berson arall gyngor ynghylch yr ymyrraeth neu unrhyw fater sy'n ymwneud â'r ymyrraeth honedig.

Adroddiadau

Llunnir adroddiad o dan adran 118 y Mesur ar sail canfyddiadau'r ymchwiliad.

'118. – (2) Caiff y Comisiynydd lunio, a rhoi i Weinidogion Cymru, adroddiad ar –

(a) y cais, a

(b) y camau a gymerwyd gan y Comisiynydd mewn ymateb i'r cais.

Rhaid i'r Comisiynydd roi copïau o unrhyw adroddiad o'r fath i P a D.

Gyda chytundeb P a D caiff y Comisiynydd gyhoeddi adroddiad neu fersiwn o'r adroddiad hwnnw neu ddogfen arall sy'n ymwneud â phwnc yr adroddiad hwnnw. Caiff y Comisiynydd hefyd gyhoeddi dogfen gyhoeddus heb gytundeb os yw o'r farn y byddai gwneud hynny er budd y cyhoedd.

Cyn cyhoeddi dogfen gyhoeddus rhaid i'r Comisiynydd hysbysu P a D o'r bwriad i wneud hynny cyn belled ag y bo'n ymarferol. Bydd hyn yn rhoi cyfle i P, D neu i unrhyw berson arall y mae'r Comisiynydd o'r farn ei fod yn briodol, i roi barn i'r Comisiynydd ynglŷn â chyhoeddi dogfen gyhoeddus.

Yn achos unrhyw gais lle dyfarna'r Comisiynydd nad yw D wedi ymyrryd â rhyddid P i ymgymryd â chyfathrebiad Cymraeg, rhaid i ddogfen gyhoeddus beidio â'i gwneud yn hysbys pwy yw D.

1. Gwneud cais i'r Comisiynydd

- 1.1 Derbyniodd y Comisiynydd gais dilys o dan adran 111 y Mesur ar 13 Mai, 2013 gan unigolyn (P). Honnai P bod ei gyflogwr ar y pryd, Swinton Group Limited (D), wedi ymyrryd â'i rhyddid i ymgymryd â chyfathrebiad Cymraeg ag unigolion eraill, sef cwsmeriaid Swinton sydd yn siarad Cymraeg yng Nghymru (R). Yn benodol, honai'r cais bod uwch aelodau o staff D wedi ei wahardd ef a'i gydweithwyr, yn ddirybudd, rhag 'siarad yn Gymraeg i'r [sic] cwsmeriaid o gwbl.'¹
- 1.2 Yn ogystal i'r cais gwreiddiol, derbyniwyd gwybodaeth ychwanegol gan P mewn perthynas â'r cais mewn cyfarfod ar 30 Medi, 2013. Cadarnhaodd P bryd hynny ei fod wedi gadael ei swydd gyda D.
- 1.3 Mae'r cais yn ysgrifenedig ac yn darparu cyfeiriad lle y caiff y Comisiynydd gysylltu â P.
- 1.4 Mae'r cais yn ei gwneud yn hysbys pwy yw D ac yn disgrifio'r ymyrraeth honedig. Er i'r ymyrraeth honedig ddod i'r amlwg yn 2010, fel y gwelir o'r dystiolaeth a gasglwyd yn ystod yr ymchwiliad, roedd y cyfarwyddyd i beidio â defnyddio'r Gymraeg yn ddilys ar ôl 1 Ebrill 2012, sef y dyddiad y daeth yr adrannau perthnasol o'r Mesur i rym.
- 1.5 Cynhaliwyd y cyfathrebiad Cymraeg rhwng unigolion yng Nghymru oedd yn dymuno defnyddio'r Gymraeg gyda'i gilydd wrth ymgymryd â'r cyfathrebiad.

2. Penderfynu ai i ymchwilio ai peidio

- 2.1 Yn unol ag adran 114 y Mesur gofynnodd y Comisiynydd i P a D am wybodaeth neu farn ynghylch yr ymyrraeth honedig er mwyn penderfynu a ddylid ymchwilio ai peidio. Ar yr un pryd, darparodd y Comisiynydd i P a D y weithdrefn ar gyfer cynnal ymchwiliad o dan Ran 6 y Mesur a phwerau'r Comisiynydd mewn perthynas AG ymchwiliad o'r fath, yn unol ag adran 114(3)(c).
- 2.2 Ar sail cais P a'r wybodaeth bellach a dderbyniwyd gan P a D, ac ar ôl ystyried y materion penodol o dan adran 114 y Mesur, penderfynodd y Comisiynydd agor ymchwiliad o dan ran 6 y Mesur yn ystod cyfarfod o'r Panel Cwynion ac Ymchwiliadau Statudol ar 8 Ionawr 2014².
- 2.3 Fel rhan o'r broses yma adnabuwyd y Financial Conduct Authority (FCA) fel person arall perthnasol yn yr ymchwiliad hwn.

3. Yr ymchwiliad

- 3.1 Dyfarniad y Comisiynydd ar yr ymchwiliad a gynhaliwyd mewn ymateb i gais P o dan adrannau 115-117 y Mesur ac adroddiad y Comisiynydd o dan adran 118 y Mesur yw'r ddogfen hon. Nod yr ymchwiliad oedd galluogi'r Comisiynydd i ddyfarnu a wnaeth D ymyrryd â rhyddid i P i ymgymryd â chyfathrebiad Cymraeg ai peidio.

¹ P, gohebiaeth ddyddiedig 9 Mai 2013.

² Cofnodion Panel Cwynion ac Ymchwiliadau Statudol Comisiynydd y Gymraeg, dyddiedig 8 Ionawr 2014.

- 3.2 Mae adran 115 y Mesur yn rhoi disgrisiwn i'r Comisiynydd o ran pennu trefn ar gyfer cynnal ymchwiliad. Amlinellwyd trefn yr ymchwiliad mewn llythyr i P, D a'r FCA, dyddiedig 30 Ionawr, 2014. Gofynnwyd i'r partion ymateb i gwestiynau penodol ynghylch yr ymyrraeth honedig ac fe'u gwahoddwyd i ddarparu unrhyw wybodaeth neu farn ychwanegol sydd, eu barn nhw, yn berthnasol i'r ymchwiliad.
- 3.3 Ymatebodd P, D a'r FCA fel a ganlyn:
- Ni dderbyniwyd unrhyw ymateb gan P.
 - Derbyniwyd ymateb cychwynnol gan D ar 13 Chwefror, 2014 ac yn dilyn caniatáu cais am estyniad i'r cyfnod ymateb, derbyniwyd ymateb llawn gan D ar 26 Chwefror, 2014.
 - Derbyniwyd ymateb yr FCA ar 12 Chwefror, 2014.

4. Canfyddiadau'r ymchwiliad

Honiad P

- 4.1 Dechreuodd P weithio i D yn 2009 mewn cangen o'r cwmni yng ngogledd-orllewin Cymru. Yn ystod diwedd 2010, honnai P, iddo gael ei wahardd gan D rhag defnyddio'r Gymraeg wrth siarad â chwsmeriaid oedd eisiau siarad Cymraeg (R).
- 4.2 Yn dilyn derbyn y cyfarwyddyd hwn, fe gododd P y mater gyda D gan egluro y gall peidio â defnyddio'r Gymraeg gyda chwsmeriaid – y gwyddai P eu bod yn medru ac yn dymuno'r defnyddio'r Gymraeg – yn sydyn ac yn ddireswm arwain at drafferthion. Penderfynodd P i anwybyddu'r cyfarwyddyd ac i barhau i ddefnyddio'r Gymraeg gyda chwsmeriaid.
- 4.3 Cynhaliwyd archwiliad o'r swyddfa; ni allai'r archwilwyr di-gymraeg ddeall sgysiaid P gyda'r cwsmeriaid.
- 4.4 O'r wybodaeth a ddarparwyd, dealltwriaeth y Comisiynydd yw bod P yn honni iddo gael ei wahardd gan D rhag defnyddio'r Gymraeg wrth ymgymryd â chyfathrebiadau gyda chwsmeriaid D yng Nghymru. Mae'r Comisiynydd hefyd ar ddeall bod y cyfarwyddyd i beidio â defnyddio'r Gymraeg yn ddilys ar ôl 2 Ebrill, 2011 sef y dyddiad y daeth rhan 6 y Mesur i rym.

Ymateb D

- 4.5 Yn ei ymateb noda D ei fod yn cefnogi'r ddwy egwyddor sy'n sail i waith y Comisiynydd:

*'[D] fully supports the principles that the Welsh language should be treated no less favourably than the English language and that persons in Wales should be able to live their life through the medium of Welsh if they choose to do so.'*³

- 4.6 Er hynny, eglura'r llythyr mai Saesneg yw iaith holl fusnes D. Nodir hyn yn y telerau ac amodau a gyhoeddir ar wefan D ac yn nhelerau busnes D gyda'i gwsmeriaid yn gyffredinol.

³ D, llythyr dyddiedig 26 Chwefror 2014,

- 4.7 Haerriad D yw bod yr ymyrraeth honedig yn deillio o anghysonderau rhwng gofynion canllawiau'r FCA a gofynion y Mesur:

'In implementing [the requirements of section 3.2.20 of the FCA Handbook] it is necessary to monitor and record all telephone discussions with customers and to be able to transcribe the substance of all conversations with customers where financial products are discussed into English. [D's] call monitoring resources are based in England and are therefore not able to monitor calls where a language other than English is used. For that reason guidance has been given to branch staff in Wales not to discuss financial products in the Welsh language and for telephone conversations with customers to be conducted in English. This is to ensure compliance with FCA requirements, and, more importantly, to protect the legal position of customers and staff by ensuring accurate, consistent and compliant records are kept.

- 4.8 Gan gyfeirio'n benodol at y sefyllfa yng Nghymru, noda'r llythyr:

'[D] has informed branch staff in Wales that it is happy for staff and customers to use the Welsh language provided that when financial products are discussed this is done in English purely for record keeping and compliance purposes.'

Fel y nodi'r ym mhwynt 4.10 uchod:

'[...] guidance has been given to branch staff in Wales not to discuss financial products in the Welsh language and for telephone conversations with customers to be conducted in English.

- 4.9 Mae'r llythyr yn cadarnhau bod D wedi cyngori aelodau o'i staff yng Nghymru i ddilyn y cyfarwyddyd uchod dros e-bost ac ar lafar.
- 4.10 Un rheswm dros ddefnyddio'r Saesneg yn unig wrth drafod cynnyrch ariannol ('*financial products*') gyda chwsmeriaid, yn ôl D, yw'r angen i warchod sefyllfa gyfreithiol ei gwsmeriaid a'i staff.
- 4.11 Yn ogystal â chyfeirio at ofynion llawlyfr yr FCA, cyfeiria'r llythyr at yr oblygiadau ariannol posib i D o gyfieithu sgysiau o'r Gymraeg i'r Saesneg:

'[D] accepts that the FCA Handbook does not explicitly state that staff should not speak any other language besides English when discussing products quotations or sales. However the requirement to record all such discussions in English indirectly results in that outcome. Given [D's] small presence in Wales, it simply does not have the available resources in Wales for all telephone calls to be monitored by Welsh speakers and for all conversations to be translated from Welsh prior to being recorded in English.'

- 4.12 Er hyn, cadarnha D ei fod yn y broses o gynnal adolygiad pellach i'r camau y gellid eu cymryd i gynorthwyo cwsmeriaid a staff cyfrwng Cymraeg yn y dyfodol.
- 4.13 O'r wybodaeth a ddarparwyd, dealltwriaeth y Comisiynydd yw bod D yn gwahardd ei staff rhag defnyddio'r Gymraeg i drafod manylion cynnyrch ariannol gyda'i gwsmeriaid am y rhesymau canlynol:

- er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion llawlyfr yr FCA;
- i warchod sefyllfa gyfreithiol ei staff a'i gwsmeriaid; ac

- oherwydd diffyg adnoddau i fonitro galwadau ffôn trwy gyfrwng y Gymraeg ac i gyfieithu cofnodion o sgysiau o'r fath i'r Saesneg yn ôl y galw.

Ymateb y person(au) eraill perthnasol

4.14 Yn ei ymateb cadarnha'r FCA mai'r sefydliad hwn sy'n gyfrifol am reoleiddio D. Eglura'r llythyr fod yr FCA wedi'i awdurdodi o dan Ddeddf Gwasanaethau a Marchnadoedd Ariannol 2000 i osod rheolau a chanllawiau ar sefydliadau y mae'n gyfrifol amdanynt. Y llawlyfr (*FCA Handbook*) yw'r enw a roddir ar y ddogfen sy'n cynnwys y rheolau a'r canllawiau hyn. Noda'r ymateb:

*'In principle, regulated firms have to comply with our rules, as we have the power under [the Financial Services and Markets Act 2000] to impose sanctions if they do not [...]. Not all firms, however, are subject to all the rules in the Handbook. So it is necessary to consider the "rules of application" to determine whether a particular rule applies to a particular type of firm.'*⁴

4.15 Eglura'r FCA nad adran 3 o'r llawlyfr sy'n berthnasol i froceriaid yswiriant ond adran SYSC 9.1:

'[...] SYSC 3 does not apply to insurance brokers such as [D]. Insurance intermediaries are, however, given a high-level rule and accompanying guidance on record-keeping in a different part of SYSC – SYSC 9.1.'

4.16 Er bod adran SYSC 9.1 yn ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau allu atgynhyrchu cofnodion yn y Saesneg, caiff sefydliadau gadw cofnod o gyfathrebiadau na chafodd eu gwneud trwy gyfrwng yr iaith. Eglura'r FCA:

The effect of the rule [SYSC 9.1] and guidance is that a firm will comply with the rule if it can reproduce records in English, but it may also "retain a record of a communication that was not made in the English language".'

4.17 O'r wybodaeth a ddarparwyd, dealltwriaeth y Comisiynydd yw mai'r hyn sy'n ofynnol ar sefydliad a reoleiddir gan yr FCA yw'r gallu i atgynhyrchu cofnodion trwy gyfrwng y Saesneg pe byddai angen. Caiff sefydliad gadw cofnod o gyfathrebiad na gafodd ei wneud trwy gyfrwng y Saesneg.

5. Cwblhau'r ymchwiliad

5.1 Ar ôl ystyried yr holl wybodaeth y cyfeirir ati uchod, mae'r Comisiynydd wedi dod i'r casgliadau canlynol:

5.1.1 Mae D yn cydnabod ei fod yn gwahardd ei staff yng Nghymru rhag defnyddio'r Gymraeg wrth drafod manylion cynnyrch ariannol gyda chwsmeriaid sydd yn siarad Cymraeg yng Nghymru (R). Ar sail y wybodaeth hon mae'r Comisiynydd yn dyfarnu bod D wedi ymyrryd â rhyddid P i ymgymryd â'r cyfathrebiad Cymraeg.

5.2 Mae'r Comisiynydd felly yn rhoi ei barn ar yr ymyrraeth isod (gan gynnwys ei barn ynghylch a ellid cyfiawnhau'r ymyrraeth, ond heb fod yn gyfyngedig i'r farn honno)

⁴ FCA, llythyr dyddiedig 12 Chwefror 2014.

- 5.2.1 Er bod y Comisiynydd yn cydnabod bod gofynion rheoleiddiol wedi eu gosod ar D sy'n ei gwneud yn ofynnol iddo gadw cofnodion o sgysiau ffôn gyda chwsmeriaid, nid yw'r Comisiynydd o'r farn bod y gofynion hyn yn ei gwneud yn ofynnol i D ddefnyddio'r Saesneg yn unig wrth drafod manylion cynnyrch ariannol gyda chwsmeriaid. Mae'r dystiolaeth a ddarparwyd gan yr FCA yn cadarnhau mai'r hyn sy'n ofynnol ar D yw'r gallu i atgynhyrchu cofnodion trwy gyfrwng y Saesneg.
- 5.2.2 Dewis D, fel mater o bolisi, yw gofyn i'w staff ddefnyddio'r Saesneg yn unig wrth drafod manylion cynnyrch ariannol.
- 5.2.3 Mae D hefyd wedi cynnig bod ei bresenoldeb bychan yng Nghymru yn golygu bod prinder adnoddau ar gyfer monitro galwadau yn y Gymraeg a'u cyfieithu i'r Saesneg. Gan bod yr FCA wedi egluro ei bod yn dderbyniol cadw cofnodion mewn iaith arall, a dim ond eu cynhyrchu neu eu cyfieithu i'r Saesneg lle bo angen (er enghraifft, yn dilyn cais gan yr FCA), nid yw'r Comisiynydd o'r farn bod y ddadl am brinder adnoddau yn cyfiawnhau'r ymyrraeth.
- 5.2.4 Yn yr un modd, nid yw'r Comisiynydd o'r farn bod yr angen i warchod sefyllfa gyfreithiol cwsmeriaid a staff D yn cyfiawnhau'r ymyrraeth.
- 5.2.5 Mae D wedi nodi ei fod yn cynnal adolygiad pellach i'r camau y gellid eu cymryd i gynorthwyo cwsmeriaid a staff yng Nghymru yn y dyfodol. Er hyn, gan bod y Mesur wedi bod mewn grym ers Chwefror 2011, a'r ddyletswydd i beidio ag ymyrryd o dan adran 111, wedi bod mewn grym ers 1 Ebrill 2012, nid oes unrhyw dystiolaeth bod D wedi cymryd unrhyw gamau rhesymol o fewn y ddwy flynedd ddiwethaf i gyfeirio at neu atal yr achos yma. Nid yw'r adolygiad felly yn cyfiawnhau'r ymyrraeth ym marn y Comisiynydd.
- 5.2.6 Mae'r Comisiynydd o'r farn bod D wedi ymyrryd â rhyddid P i ymgymryd â'r cyfathrebiad Cymraeg, ac nad oes cyfiawnhad dros yr ymyrraeth honno. Canlyniad yr ymyrraeth yn yr achos hwn yw creu sefyllfa artiffisial ble mae'n ofynnol ar staff D i siarad Saesneg gyda unigolion y gwyddai'r staff eu bod yn siarad Cymraeg ac eu bod yn dymuno gwneud hynny.

6. Cyngor

- 6.1 Yn unol ag adran 117(7) y Mesur mae'r Comisiynydd yn rhoi i D y cyngor canlynol ynghylch yr ymyrraeth:
- 6.1.1 Mae Rhan 1 y Mesur yn rhoi statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru. Fel sefydliad sy'n cynnal ei fusnes yng Nghymru, dylai D roi ystyriaeth lawn i'r statws swyddogol hwn trwy newid ei bolisi o ddefnyddio'r Saesneg yn unig wrth drafod cynnyrch ariannol gyda chwsmeriaid.

7. Ymholiadau

- 7.1 Dymunai'r Comisiynydd ddiolch i'r partïon perthnasol am eu cydweithrediad wrth gynnal yr ymchwiliad hwn.
- 7.2 Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau ynghylch yr adroddiad yr ymchwiliad at:

Comisiynydd y Gymraeg
Siambrau'r Farchnad
5-7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd
CF10 1AT